Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# Dyled ac effaith costau byw cynyddol

## Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

27 Chwefror 2023

### Cefndir

Fel rhan o waith dilynol y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i ddyled ac effaith costau byw cynyddol, cynigiodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ddull ansoddol o ymgysylltu.

Trefnwyd cyfres o chwe grŵp ffocws i gasglu safbwyntiau unigolion â phrofiad o ddyled a phwysau chostau byw, gan ganolbwyntio'n benodol ar rieni; pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig; a phobl ag anableddau a/neu broblemau iechyd.

Cynhaliwyd tri grŵp ffocws wyneb yn wyneb a thri grŵp ffocws ar-lein rhwng 1 Chwefror a 15 Chwefror 2023, a hynny gyda chyfanswm o 46 o gyfranogwyr.

### Cyfranogwyr

Er bod mwyafrif y cyfranogwyr yn rhannu eu profiadau personol, roedd nifer fechan ohonynt yn cyfrannu'n broffesiynol fel staff yn gweithio mewn sefydliadau sy'n cefnogi'r rhai o dan bwysau costau byw.

Roedd cyfansoddiad y cyfranogwyr yn amrywio ac yn cynnwys rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol a gwledig; aelwydydd un rhiant; cyfranogwyr ag anableddau a/neu broblemau iechyd; cyfranogwyr sydd â phlant ag anghenion ychwanegol a chyfranogwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

Roedd statws cyflogaeth y cyfranogwyr hefyd yn amrywio ac yn cynnwys cyfranogwyr â chontractau cyflogaeth gwahanol, gan gynnwys contractau amser llawn, rhan-amser a dim oriau; cyfranogwyr di-waith, cyfranogwyr gyda mwy nag un swydd a chyfranogwyr yn derbyn budd-daliadau.

Daethpwyd o hyd i'r cyfranogwyr drwy nifer o randdeiliaid allweddol gan gynnwys ACE (Gweithredu yng Nghaerau a Threlái), Home-Start Cymru, Comisiwn Gwirionedd Tlodi Abertawe a Women Connect First.

## Fformat

Roedd fformat y gwaith ymgysylltu yn gymaradwy i raddau helaeth rhwng sesiynau, ond gydag ychydig o amrywiaeth i ddiwallu anghenion cyfranogwyr ac i ddarparu ar gyfer absenoldebau hwyr. Cynhaliwyd grwpiau ffocws wyneb yn wyneb yn adeiladau'r sefydliad a'n croesawodd. Cynhaliwyd un grŵp ffocws ar-lein ar Microsoft Teams, gyda dau'n cael eu cynnal ar Zoom.

Gohiriwyd y drafodaeth ar sawl achlysur yn ystod mwy nag un grŵp ffocws er mwyn caniatáu i rai cyfranogwyr a oedd yn ypset allu ymdawelu eu hunain.

Daeth y themâu a ganlyn i'r amlwg yn sgil y trafodaethau.

## Yr hinsawdd bresennol

> *"Mae pethau 100% yn waeth. Hyd yn oed pan oedd gennym ni'r £66, roedden ni'n meddwl bod hynny'n grêt ac yn ei werthfawrogi, ond dyw e ddim yn mynd yn bell."*
>
> *Cyfranogwr yn un o'r grwpiau ffocws*

Rhannodd cyfranogwyr ym mhob un o'r grwpiau ffocws hanesion anecdotaidd o reoli pwysau costau byw yn yr hinsawdd bresennol. Roedd consensws ymhlith y rhai a rannodd eu barn mai'r pwysau costau byw presennol yw'r gwaethaf y maent wedi'i brofi.

> *"Y llynedd roedd fy morgais yn £468 a nawr mae'n £952, ac mae disgwyl iddo godi eto yn y misoedd nesaf. Sut allwch chi fforddio byw? Roedd angen MOT ar fy nghar ddiwedd yr wythnos ddiwethaf. Roedd yn rhaid i mi ofyn i fy mab 19 oed am £45. Roedd yn gwneud i mi deimlo'n ofnadwy."*

> *Cyfranogwr yn un o’r grwpiau ffocws*

Rhannodd nifer o’r cyfranogwyr enghreifftiau o'r addasiadau y maent yn gorfod eu gwneud yn eu bywydau bob dydd i ymdopi â’u biliau. Esboniodd llawer nad yw *“tynhau'r gwregys”* yn bosibl mwyach a rhannwyd enghreifftiau o arbed arian, gyda rhai y gellir eu hystyried yn eithafol.

> *“Mae dod yn dod i mewn ychydig o weithiau'r flwyddyn. Mae'n byw bywyd eithaf anhrefnus ac roedd e wedi bod heb drydan ers chwe wythnos. Meddyliais i, ‘beth wyt ti wedi bod yn ei wneud?!’ Mae'n byw mewn bloc o fflatiau ac roedd ganddo drefniant gyda'i ffrind y gallai redeg estyniad drwy'r ffenestri. Ac yna mae ganddo rai eraill sy'n rhedeg i mewn i'w ystafell wely a'i gegin. Felly mae wedi'i orlwytho. Fe wnes i ei helpu i gysylltu â’i gyflenwr, a chymerodd awr i gael gafael arnyn nhw.”*
>
> *Aelod o staff elusen datblygu cymunedol*

Roedd profiadau a rannwyd gan gyfranogwyr yn aml yn cael eu hadlewyrchu mewn enghreifftiau a roddwyd gan staff o'r sefydliadau a oedd yn croesawu’r grwpiau ffocws. Eglurodd aelod o staff yn Gweithredu yng Nghaerau a Threlái (ACE o hyn ymlaen) eu bod wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy’n manteisio ar gymorth tanwydd a’u pantri bwyd.

## Tlodi tanwydd

Y gallu i dalu am drydan a gwres oedd y mater mwyaf i'r rhan fwyaf o grwpiau ffocws. Dywedodd y rhan fwyaf o’r cyfranwyr a drafododd filiau trydan a gwresogi y gallai fod yn ddryslyd deall eu bil a’u bod yn aml wedi eu syfrdanu gan y swm oedd yn ddyledus ganddynt.

Eglurodd nifer o’r cyfranogwyr hefyd eu bod yn teimlo nad oedd cwmnïau ynni o gymorth pan oeddent yn ceisio cymorth cwsmeriaid. Ymhelaethwyd nad oedd y rhai sy'n ateb galwadau bob amser yn gwybod am yr opsiynau a allai fod ar gael i gwsmeriaid sy’n ei chael yn anodd talu eu biliau.

> “Maen nhw’n pentyrru mwy arnon ni drwy’r amser. Rydw i ar fy mhen fy hun. . . a dydw i heb weithio ers mis Gorffennaf diwethaf am resymau iechyd. Rydw i ar Economi 7. Felly, rwy’n rhoi’r gwres ymlaen am 6:50am, yna’n codi am 7:00am i'w ddiffodd. Yr oll rwy’n ei

ddefnyddio yw'r dŵr a blancedi trydan. Rydw i'n llythrennol wedi gorfod gwisgo haenau. Rydw i hyd yn oed wedi mynd i dŷ fy rhieni am gwpl o ddiwrnodau."

*Cyfranogwr yn un o'r grwpiau ffocws*

*"Rydw i newydd gael fy mil nwy ac rydw i £600 i lawr. Dydw i ddim yn gwybod beth rydw i wedi'i wneud. Fe wnaethant godi fy nebyd uniongyrchol o £130 i £292. Mae'n rhaid i mi ei dalu am 3 mis yna gweld beth sy'n digwydd. Doedd y mesurydd clyfar ddim yn gweithio. Rwy'n gobeithio bod camgymeriad wedi digwydd. Roedd bron i mi gael haint."*

*Cyfranogwr yn un o'r grwpiau ffocws*

## Bwyd a maeth

Ar wahân i'r anawsterau yr oedd llawer yn eu hwynebu o ran talu am drydan a gwresogi eu cartrefi, roedd cost gynyddol bwyd yn cael ei grybwyll yn aml fel cost yr oedd llawer o gyfranogwyr yn ei chael yn fwyfwy anodd ymdopi â hi.

"Tua diwedd y mis dydw i ddim yn bwyta fel arfer. Rwy'n gwneud yn siŵr bod digon nes i mi gael fy nhalu fel bod y plant yn gallu bwyta o leiaf. Pa bynnag sbarion nad ydyn nhw'n eu bwyta, byddaf i'n eu bwyta felly nad ydynt yn mynd i'r bin."

*Cyfranogwr yn un o'r grwpiau ffocws*

Trafododd nifer o gyfranogwyr ddefnyddio banciau bwyd a/neu ddarpariaeth debyg am y tro cyntaf, a thrafododd eraill ddefnyddio apiau fel '*Too Good to Go*' i brynu bwyd am brisiau gostyngol. Eglurodd un cyfranogwr, a oedd yn ymwneud â rheoli pantri bwyd mewn sefydliad elusennol, ei fod wedi gweld cynnydd amlwg yn nifer y bobl a oedd yn dymuno defnyddio'r pantri.

*"Rwy' wastad yn meddwl am ble i fynd i siopa. Rwy'n chwilio o hyd am fargeinion a ble mae'r lle gorau i siopa. A nawr, rydw i'n mynd i le yn Llanedern, rhywbeth nad ydw i erioed wedi'i wneud o'r blaen. Mae'n costio £3 ac rwy'n cael 16 eitem. Dydw i erioed wedi gwneud hynny o'r blaen. Dydw i ddim yn falch, ond dyna mae'n rhaid i mi ei wneud."*

> *Cyfranogwr yn un o'r grwpiau ffocws*
>
> *"Rydym wedi gweld cynnydd triphlyg (yn nifer y bobl sy'n dymuno defnyddio'r pantri bwyd). Mae gennym ni restr aros enfawr. Mae yna bobl yn dod trwy'r drws angen bwyd yn y fan a'r lle. Rydyn ni ar agor ddeuddydd yr wythnos, felly dros y deuddydd rydyn ni'n gweld tua 70 o bobl, ond mae gennym ni 60 arall ar y rhestr aros."*
>
> *Cyfranogwr yn un o'r grwpiau ffocws*

Eglurodd nifer o'r cyfranogwyr, yn bennaf o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, er eu bod yn gwerthfawrogi'r ddarpariaeth banc bwyd, nad oedd yr eitemau bwyd oedd ar gael yn aml yn briodol yn grefyddol neu'n ddiwylliannol. Esboniodd rhai o'r cyfranogwyr ag anghenion dietegol hefyd fod y ddarpariaeth yn aml yn gyfyngedig a oedd yn golygu y byddent yn mynd heb fwyd.

> *"O ran banciau bwyd, mae rhai pobl yn wynebu rhwystrau diwylliannol a stigmas personol a chymdeithasol o ran cael mynediad at y math yma o wasanaethau, hyd yn oed os ydyn nhw'n cael trafferth darparu bwyd i'w teuluoedd. Felly, mae rhai rhieni yn gorfod mynd heb ddigon o fwyd a/neu fwyd maethlon er mwyn gallu bwydo'u plant."*
>
> *Cyfranogwr yn un o'r grwpiau ffocws*

Esboniodd nifer o rieni a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws gyda phlant a ddisgrifiwyd fel niwrowahanol fod dod o hyd i eitemau bwyd priodol sy'n fforddiadwy yn her ychwanegol.

> *"Dyw dau blentyn ddim yn bwyta'r un peth â gweddill y cartref. Oherwydd eu hanghenion penodol, mae lle rwy'n gallu siopa yn gyfyngedig. Mae'n rhaid i mi fod yn benodol iawn am yr hyn rydw i'n ei brynu."*
>
> *Cyfranogwr yn un o'r grwpiau ffocws*

## Llesiant

> *"Beth arall ydych chi eisiau gennym ni? Ar ba bwynt ydych chi'n rhoi'r gorau iddi? Dydyn ni ddim yn byw, dim ond yn bodoli rydyn ni."*

> *Cyfranogwr yn un o'r grwpiau ffocws*

Roedd trafodaeth am yr heriau sy'n gysylltiedig â chostau byw cynyddol yn aml yn gysylltiedig â thrafodaeth am lesiant meddyliol a chorfforol y cyfranwyr.

Roedd goblygiadau costau cynyddol i iechyd meddwl yn benodol yn thema a oedd yn treiddio drwy lawer o'r drafodaeth ar draws yr holl grwpiau ffocws. Yn ogystal â rhannu eu barn am effaith yr oedd costau cynyddol yn ei chael ar eu hiechyd meddwl, roedd hyn hefyd yn cael ei gyfleu'n aml drwy gyfathrebu di-eiriau. Roedd nifer o gyfranogwyr yn ypset yn ystod y trafodaethau ac yn gorfod gadael yr ystafell, a chafodd y drafodaeth ei gohirio sawl gwaith er mwyn caniatáu i eraill ymdawelu eu hunain.

> *"Dw i dan straen. Dwi'n crio. Rwy'n meddwl sut ydw i'n mynd i fwydo fy mhlant. Sut ydw i'n mynd i'w hymolchi? Ysgol? Mae pethau'n wael iawn. Dw i'n gweithio i ddim byd yn y bôn, oherwydd mae'r cyfan yn cael ei wario ar nwy a thrydan."*
>
> *Cyfranogwr yn un o'r grwpiau ffocws*
>
> *"Rydyn ni i gyd ar gyffuriau gwrth-iselder. Rydyn ni i gyd wedi gorfod mynd at y doctor. Mae gen i apwyntiad ddydd Gwener i mi fynd yn ôl ar feddyginiaeth, achosi rydw i wedi mynd lawr yr allt dros yr wythnosau diwethaf. Mae'n fater o geisio dod o hyd i ffordd allan o'r sefyllfa rydyn ni wedi cael ein rhoi ynddi."*
>
> *Cyfranogwr yn un o'r grwpiau ffocws*

Rhannodd rhai o'r cyfranogwyr ag anableddau a/neu broblemau iechyd y pwysau ychwanegol a brofwyd wrth geisio talu eu biliau a rheoli eu cyflwr.

> "Mae gen i ffibromyalgia ac mae angen i mi gael un neu ddau fath yr wythnos i helpu gyda'r boen. Mae fy mil trydan wedi dechrau mynd yn uchel iawn, a dim ond fi a fy mhlentyn ifanc sydd yna, ac anaml y byddwn ni gartref. Mae fy nwy ar dariff uchel ac maen nhw'n gwrthod ei newid. Mae'r ofn ynghylch costau'n cynyddu wedi achosi i mi roi'r gorau i gael bath. Mae fy ffibromyalgia wedi bod yn ddrwg iawn yn yr wythnosau diwethaf, sy'n ei gwneud hi'n anodd gwneud gweithgareddau dyddiol a gwneud gwaith da."

*Cyfranogwr yn un o'r grwpiau ffocws*

*"Rydw i ar ddialysis. Fe wnes i geisio gwneud haemodialysis gartref, ond fe es i'n bryderus iawn am filiau trydan a dŵr enfawr. Yr unig arian ges i oedd £89 y mis gan y Gwasanaeth Iechyd. Fe wnes i ofyn a fyddai modd ei gynyddu, ond na oedd yr ateb . Roedd yn rhaid i mi ddychwelyd yr holl offer a mynd yn ôl i'r uned arennol. Y broblem yng Nghymru yw mai dim ond yn ystod y dydd y gallwch chi fynd yno, felly rydw i wedi gorfod cwtogi ar fy oriau gwaith."*

*Cyfranogwr yn un o'r grwpiau ffocws*

## Cymorth

Trafododd y cyfranwyr fynediad at ystod eang o fentrau cymorth i helpu i liniaru'r pwysau sy'n gysylltiedig â chostau byw cynyddol. Gellir disgrifio'r cymorth y ceir mynediad ato fel cymorth ffurfiol (cymorth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU) a chymorth anffurfiol (benthyg arian gan deulu a/neu ffrindiau ar sail ad hoc).

Wrth drafod y cymorth sydd ar gael, nid oedd y cyfranwyr yn aml yn gwahaniaethu rhwng cynlluniau a mentrau cymorth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Yn wir, roedd yn aml yn anodd gweld at ba gynllun neu fenter yr oeddent yn cyfeirio ato, gan fod dryswch yn aml ymhlith y cyfranogwyr ynghylch yr enw, a'r meini prawf ymgeisio a chymhwysedd.

Roedd y Gronfa Cymorth Dewisol (DAF o hyn ymlaen) yn fenter a godwyd gan y cyfranogwyr yn ystod y rhan fwyaf o'r grwpiau ffocws. Eglurodd rhai o'r cyfranwyr a oedd wedi manteisio ar y DAF, er bod y broses ar gyfer cael mynediad ati yn syml, ei bod yn rhy gyfyng.

*"Dw i wedi cael rhyw dri neu bedwar ohonyn nhw. Rydw i ar gynllun rhagdalu ac yn amlwg dim ond tri y flwyddyn y cewch chi. Dim ond £3 sydd ar ôl yn fy nghyfrif argyfwng nwy. Felly dydw i ddim wedi gallu ei roi ymlaen drwy'r dydd ddoe, oherwydd mae angen i mi ei gadw er mwyn rhoi bath iddyn nhw (ei phlant). . . Rwy'n ei droi ymlaen am bump i ddeg munud, dim ond i gynhesu'r fflat ychydig, ond yna mae'n rhaid i mi ei droi i ffwrdd ar unwaith."*

> *Cyfranogwr yn un o'r grwpiau ffocws*
>
> *"Fe wnes i gais am DAF y diwrnod o'r blaen, ond fe ddywedon nhw wrtha i fy mod i'n methu cael talid oherwydd mae'n debyg fy mod i wedi cael gormod."*
>
> *Cyfranogwr yn un o'r grwpiau ffocws*

Trafododd rhai o'r cyfranwyr fynediad at gymorth ad hoc o amrywiaeth o ffynonellau ac yn benodol, esboniodd y cywilydd yr oeddent yn ei wynebu yn gorfod gofyn i aelodau o'r teulu am gymorth ariannol.

> *"Rydw i wedi gorfod cael help gan fy mos, felly mae hynny'n dod allan o fy nghyflog bob mis . . . Mae fel arfer er mwyn helpu i ddod drwy'r Nadolig neu benblwyddi. Sut ydych chi'n dweud ein bod ni'n methu dathlu'r Nadolig eleni?"*
>
> *Cyfranogwr yn un o'r grwpiau ffocws*
>
> *"Mae llawer yn troi at y banc teulu a ffrindiau. Gyda'r holl sefydliadau elusennol hyn, mae gormod o gwestiynau. Mae yna wiriadau credyd, neu os ydych chi wedi bod mewn dyled yn y gorffennol neu wedi methu taliad, dydyn nhw ddim yn mynd i roi cymorth i chi."*
>
> *Cyfranogwr yn un o'r grwpiau ffocws*
>
> *"Roedd yn rhaid i mi fenthyg arian gan fy mrawd, ac rydw i'n gofidio'n barod. Roedd ei angen arna' i i goginio bwyd fy mhlant. Felly pan fyddaf yn cael fy nhalu, dyna swm mawr o fy nghyflog y mae angen i mi ei dalu'n ôl iddo. Mae'n ofnadwy."*
>
> *Cyfranogwr yn un o'r grwpiau ffocws*

Roedd lefel yr ymwybyddiaeth ymhlith y cyfranogwyr o'r gwahanol gynlluniau sydd wedi'u cynllunio i gefnogi'r rhai dan bwysau costau byw yn amrywio. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn dibynnu ar bobl yn rhannu gwybodaeth er mwyn clywed am y mentrau sydd ar gael. Trafododd rhai o'r grwpiau ffyrdd o godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd.

> *"Dim ond ar-lein y mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth ar gael. Mae arnom angen gwybodaeth fwy lleol, fel gwybodaeth ar gael mewn*

> *meddygfeydd. Dylai'r llywodraeth hefyd wneud gwell defnydd o grwpiau cymunedol gan fod mwy o ymddiriedaeth ynddynt o gymharu â'r llywodraeth."*
>
> *Cyfranogwr yn un o'r grwpiau ffocws*
>
> *"Pe bai gan Lywodraeth Cymru ryw fath o ap y gallai pobl ei ddefnyddio ar eu ffonau, byddai hynny'n rhoi gwybod am ba fath o grantiau neu gymorth ariannol neu gefnogaeth sydd ar gael, gyda gwahanol gysylltiadau ar gyfer lleoedd fel Crisis, Shelter a Chyngor ar Bopeth. Mae'n bwysig gwybod pa eiriau i'w defnyddio wrth lenwi rhai ffurflenni. Gall fod yn gymhlethdod o wybodaeth ac yn anodd cael pethau'n iawn."*
>
> *Cyfranogwr yn un o'r grwpiau ffocws*

## Y dyfodol

> *"Rwy'n ceisio peidio â meddwl am y misoedd i ddod. Yn enwedig pa mor ddrwg fydd iechyd meddwl pobl. Fe wnes i droi at fy ffrind y diwrnod o'r blaen a dweud fy mod i'n methu gwneud hyn rhagor."*
>
> *Cyfranogwr yn un o'r grwpiau ffocws*

Roedd ymdeimlad amlwg o bryder ymhlith cyfranwyr y grwpiau ffocws wrth drafod y dyfodol ac yn benodol, faint fydd yn ymdopi gan fod disgwyl i nifer o filiau godi ym mis Ebrill. Roedd y cyfranogwyr yn pryderu'n bennaf am gostau cynyddol nwy a thrydan, gydag un o'r cyfranogwyr yn dweud ei fod yn teimlo'n "anobeithiol."

> "Mae'r sefyllfa wedi gwaethygu. Mae'r biliau wedi codi. Dydw i ddim yn defnyddio fy nhrydan rhyw lawer. Rwy'n meddwl ei fod yn mynd i fyny ym mis Ebrill, felly'r cyfan rwy'n meddwl amdano yw faint fydd yn mynd allan - dyw'r arian ddim gen i. *Mae fy iechyd yn golygu bod angen i mi gadw'n gynnes i raddau. Mae gen i ddwy gath - aeth un ohonyn nhw'n sâl a bu'n rhaid i ffrind dalu bil o £300 oherwydd nad oeddwn i'n gallu ei fforddio. Felly mae'r bil hwnnw'n mynd allan ac ar un adeg doeddwn i ddim yn gallu talu fy rhent, felly fe dalodd fy chwaer ran ohono. . . Doeddwn i ddim eisiau bod yn y sefyllfa hon ac rwy'n ceisio cael fy hun allan ohoni. Rydw i wedi bod mewn dyled ac*

> *wedi cael fy hun allan ohoni, ond rwy'n syrthio i mewn i'r pydew eto. Dwi jyst yn meddwl am y pethau fydd yn costio mwy - y bwyd a'r trydan. Sut ydw i'n mynd i ymdopi?*
>
> *Cyfranogwr yn un o'r grwpiau ffocws*

Trafododd rhieni a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws yr effaith hirdymor ar eu plant ac yn benodol, ofnau ynghylch a fydd eu plant byth yn gallu byw'n annibynnol.

> *"Dydw i ddim yn gallu gweld fy mhlant yn gadael cartref. Mae gen i ferch 17 oed a ddywedodd ei bod hi ddim yn gadael cartref oherwydd ei bod hi'n gallu fy ngweld yn cael trafferth. Ydyn ni eisiau iddyn nhw symud allan a'u gweld yn cael yr un trafferthion â ni?"*
>
> *Cyfranogwr yn un o'r grwpiau ffocws*